Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales

GIG CYMRU NHS WALES

Darllenwch hwn cyn i chi gael eich brechlyn COVID-19

Gwybodaeth mae angen i chi ei wybod

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Iechyd Cyhoeddus Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o **'Rhestr wirio cyn brechlyn COVID-19'.**

Ionawr 2021

Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Mae hwn yn fersiwn hawdd ei ddeall. Mae'r geiriau a beth maen nhw'n feddwl yn hawdd i'w darllen a'u deall. Ond efallai y byddwch chi angen help i ddarllen a deall y ddogfen yma.

Efallai bod y geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn anodd eu deall. Mae beth maen nhw'n feddwl yn cael ei esbonio yn y blwch o dan y gair. Os ydy'r gair anodd yn cael ei ddefnyddio eto mae mewn ysgrifen glas normal.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

Gwefan:
111.wales.nhs.uk/coronavirus(2019ncov)?locale=cy

Ffôn: 111 neu **0845 46 47** os nad ydy111 ar gael yn eich ardal

Mae galwadau i 111 GIG Cymru **am ddim** o linellau daear a ffonau symudol. Mae galwadau i 0845 46 47 yn costio 2c y funud ar ben beth ydy cost eich darparydd ffôn.

Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**.

Darllenwch hwn yn ofalus os gwelwch yn dda cyn i chi gael eich brechlyn COVID-19



Salwch yw **COVID-19** sydd yn cael ei achosi gan feirws o'r enw **Coronafeirws**. Mae COVID-19 yn salwch newydd. Dyna pam mae'n rhaid inni aros gartref a gwisgo mwgwd.



Meddyginiaeth ydy **brechlyn** sydd yn helpu i'ch cadw'n ddiogel rhag dal salwch.

Oes gennych chi unrhyw un o'r rhain?

- peswch newydd sydd ddim yn stopio
- tymheredd uchel iawn. Mae hyn yn cael ei alw yn dwymyn
- dydych chi ddim yn gallu blasu nac arogli pethau

Os oes gennych chi unrhyw un o'r rhain, ewch i'r dderbynfa ar unwaith. Fe fyddan nhw'n dweud wrthych chi beth i'w wneud.

Ydych chi'n aros am ganlyniad prawf COVID-19?

Os ydych chi'n aros am ganlyniad prawf COVID-19, ewch i'r dderbynfa ar unwaith. Fe fyddan nhw'n dweud wrthych chi beth i'w wneud.

Ydych chi'n gallu ateb ie i unrhyw un o'r cwestiynau yma?

- Ydych chi'n teimlo'n sâl heddiw?
- Oes gennych chi beswch, tymheredd uchel neu yn methu blasu neu arogli yn y 4 wythnos diwethaf?

- Ydych chi wedi cael prawf am COVID-19 oedd yn dweud eich bod chi wedi cael COVID-19 yn y 28 diwrnod diwethaf?
- Ydych chi wedi cael COVID-19 mwy na 28 diwrnod yn ôl ond yn dal i deimlo'n flinedig neu yn sâl?

- Ydych chi'n **alergol** i unrhyw beth? Er enghraifft, mae rhai pobl yn dechrau cosi neu gael anhawsterau anadlu os bwytan nhw rywbeth maen nhw'n alergol iddo.

- Ydych chi'n alergol i **polyethylene glycol (PEG)?** Mae hwn i'w gael mewn rhai bwydydd, cosmetigau a meddyginiaethau.

- Ydych chi erioed wedi cymryd meddyginiaeth, bwyd neu frechlyn sydd wedi eich gwneud mor sâl fel bod rhaid i chi fynd i weld meddyg neu fynd i'r ysbyty?

- Oes gennych chi gyflwr meddygol sydd yn ei gwneud yn fwy hawdd i chi ddal salwch arall?

- Ydych chi wedi cael unrhyw frechlyn arall yn y 7 diwrnod diwethaf?

- Ydych chi wedi cael brech ar y croen oedd yn cosi ar ôl eich brechlyn Covid-19 cyntaf.

- Ydych chi'n gwaedu llawer pan fyddwch chi yn cael toriad? Neu ydych chi'n cymryd meddyginiaeth sydd yn teneuo eich gwaed?

- Ydych chi'n cymryd meddyginiaethau sydd yn ei gwneud yn fwy hawdd i chi ddal salwch arall?

- Ydych chi'n feichiog?

- Ydych chi'n gallu bod yn feichiog?

- Ydych chi'n bwydo o'r fron?

- Ydych chi'n gweithio mewn iechyd neu ofal cymdeithasol?

Os ydych chi wedi ateb **ydw** i unrhyw un o'r cwestiynau yma, **rhaid** i chi ddweud wrth y nyrs pan rydych chi'n mynd i gael eich pigiad brechlyn COVID-19.

Os nad ydych chi'n deall unrhyw beth yn y daflen yma, gofynnwch i'r nyrs pan rydych chi'n mynd i gael eich pigiad brechlyn COVID-19.

Pan rydych chi wedi cael eich brechlyn COVID-19 fe fyddwch chi yn cael **Cerdyn Brechlyn**.

Cerdyn Brechlyn ydy cerdyn sydd yn dangos pa frechlyn rydych chi wedi ei gael, pryd rydych chi wedi ei gael a phryd mae angen i chi gael eich ail bigiad.

Cadwch eich Cerdyn Brechlyn yn ddiogel a dod ag ef gyda chi pan rydych chi'n cael eich ail bigiad.

Cyn i chi adael heddiw, gwnewch yn siŵr eich bod chi'n gwybod lle a phryd y byddwch chi'n cael eich ail bigiad.

Ar ôl i chi gael y brechlyn rhaid i chi ddilyn y rheolau i gadw pawb yn ddiogel:



- Cadw 2 fetr oddi wrth bobl dydych chi ddim yn byw gyda nhw
- Gwisgo mwgwd wyneb
- Golchi eich dwylo yn dda ac yn aml
- Dilyn y rheolau am gyfarfod pobl eraill yn eich ardal

Rhagor o wybodaeth

Rydych chi'n gallu dysgu rhagor am y brechlyn ar wefan 111 GIG Cymru:
111.wales.nhs.uk/coronavirus(2019ncov)?locale=cy
a
www.gov.uk/government/collections/mhra-guidance-on-coronavirus-covid-19

Os ydych chi'n cael unrhyw **sgil effeithiau** ar ôl cael brechlyn COVID-19, ewch i'r wefan a llenwi'r ffurflen:
coronavirus-yellowcard.mhra.gov.uk

Sgil effeithiau ydy pan rydych chi'n cymryd meddyginiaeth neu yn cael brechlyn ac mae'n gwneud i chi deimlo'n sâl. Dydy sgil effeithiau ddim yn digwydd i bawb ac fel arfer dydyn nhw ddim yn para'n hir.

Edrychwch i weld sut mae'r GIG yn defnyddio gwybodaeth amdanoch chi ar wefan 111 GIG Cymru:
111.wales.nhs.uk/lifestylewellbeing/yourinfoyourrights?locale=cy

Rydych chi'n gallu cael rhagor o gopïau o'r daflen yma o wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru:
icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/adnoddau-gwybodaeth-iechyd

© Iechyd Cyhoeddus Cymru, Ionawr 2021
Fersiwn 1 ISBN: 978-1-78986-154-142